


PANEL CRAFFU ANNIBYNNOL Y DDALFA

Gweithredwyd Panel Craffu Annibynnol y Ddalffa yn Heddlu Dyfed-Powys ym mis Mawrth 2024 i gynnal gwaith craffu annibynnol ar ddalfeydd er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r heddlu ar gyfer cadw unigolion yn y ddalffa o fewn Heddlu Dyfed-Powys yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn briodol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgaredd y paneli rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026. Mae'n dwyn ynghyd ddata meintiol, canfyddiadau allweddol, a mewnwelediadau thematig ar draws y pedwar chwarter.




YSTADEGAU 25-26

Amser cyfartalog yn y ddalffa:



Safon "RAG":



89
COFNODION Y
DDALFA WEDI
CAEL EI
HADOLYGU



Oeddech chi'n gwybod?
Mae yna 6 ddalffa ar draws Dyfed Powys

Mae'r ardaloedd a nodwyd ar gyfer gwelliant wedi lleihau gan 6 o gymharu â 24/25



CANFYDDIADAU CADARNHAOL

Triniaeth, urddas a chyfranoldeb

- Triniaeth barchus gyson o unigolion yn y ddalffa
- Defnydd cryf o ddad-ddwysáu a gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar lesiant
- Cyfiawnhad clir a chymesur yn y rhan fwyaf o achosion sy'n cynnwys defnyddio grym



Amseroldeb yn y ddalffa

- Gwelliant sylweddol o flwyddyn i flwyddyn
- 38 munud ar gyfartaledd o gyrraedd i awdurdodi cadw yn y ddalffa. Gostyngiad o bron i bum awr yng nghyfanswm yr amser cadw o'i gymharu â 2024-2025.

PANEL CRAFFU ANNIBYNNOL Y DDALFA

Plant yn y ddalfa



- Llai o blant yn mynd i'r ddalfa
- Roedd y rhan fwyaf o blant yn cael eu rhyddhau ymhell cyn 12 awr oherwydd menter newydd yr heddlu.
- Adolygiadau gan arolygydd ychwanegol ar adegau critigol
- Gwella'r gwaith o gwblhau rhestrau gwirio plant yn y ddalfa
- Prosiect Eiliadau Cyraeddadwy yn dangos effaith gadarnhaol gynnar ar ddiogelu a chymorth emosiynol

Women & Girls in Custody

Mesur	2024-25	2025-26
Swyddog benywaidd wedi'i neilltuo	71%	83%
Cyflwynodd yr swyddog eu hunain	33%	51%



- Cynnydd cadarnhaol yn nifer y swyddogion benywaidd sy'n cael eu neilltuo a'u cyflwyno i fenywod a merched yn y ddalfa

Arsylwi, lles a hylendid



- Lefelau arsylwi wedi eu gosod a'u dilyn mewn 96% o gofnodion
- Y rhan fwyaf o'r unigolion yn y ddalfa wedi cael cynnig cyfleusterau hylendid ac/neu wedi eu defnyddio
- Hawliau a hawlogaethau wedi eu darparu ymron ym mhob achos

Gwasanaethau cymorth a gofal iechyd



- Y rhan fwyaf o'r unigolion yn y ddalfa wedi cael cynnig gwasanaethau cymorth, neu wedi eu hatgyfeirio iddynt
- Gweithio mewn partneriaeth dda gyda darparwyr gofal iechyd, Adferiad, gwasanaethau'r trydydd sector a merched mewn dalfeydd

MEYSYDD ALLWEDDOL I'W GWELLA



Ansawdd a chysondeb cofnodion



- Dogfennaeth anghyson yw'r broblem fwyaf cyffredin o hyd.
- Mae enghreifftiau'n cynnwys cofnodi cyflwyniadau swyddogion benywaidd, rhesymeg glir dros benderfyniadau y barnwyd eisoes eu bod yn briodol, dyfodiad neu ymadawiad gwasanaethau'r trydydd sector, a darpariaethau o fewn y ddalfa.



Menywod yn y ddalfa – bylchau o ran cofnodi

- Nid yw cofnodion bob amser yn dangos bod unigolion yn y ddalfa wedi cael cynnig ymgysylltu â swyddog o'r un rhyw neu wedi cael cynnig cynhyrchion mislif.



PANEL CRAFFU ANNIBYNNOL Y DDALFA

Rhestr wirio plant yn y ddalfa – angen canolbwyntio ar ansawdd

- Cyfraddau cwblhau wedi gwella ✓
- Llais y plentyn heb ei gofnodi'n gyson ✗
- Y cam nesaf: gwella dyfnder ac ansawdd cofnodion drwy gydol y cyfnod cadw



Oedi gan asiantaethau allanol

- Cadw rhai plant yn y ddalfa am gyfnod hir oherwydd capasiti cyfyngedig gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith a'r Gwasanaethau Plant.
- Y tu allan i reolaeth yr heddlu, ond rhaid cofnodi oediadau yn glir, a rhaid parhau i drin yn fwy difrifol trwy lywodraethu partneriaethau.

Darpariaethau crefyddol – cofnodi

- Anhawster dod o hyd i dystiolaeth bod darpariaethau crefyddol yn cael eu cynnig o fewn cofnodion y ddalfa.
- Mae argaeledd yr holl ddarpariaethau crefyddol wedi gwella.



DATGANIAD SICRUYDD CYFFREDINOL

Mae arferion cadw yn y ddalfa ar draws Heddlu Dyfed-Powys yn gwella.

- Codwyd llai o bryderon
- Mesurau diogelwch cryfach i grwpiau agored i niwed
- Gostyngiadau clir yn yr amser cadw
- Goruchwyliaeth dda o ddefnyddio grym



Mae'r materion sy'n weddill yn ymwneud yn bennaf â sut y mae arfer yn cael ei gofnodi, nid sut y mae unigolion yn y ddalfa yn cael eu trin.

Edrych ymlaen at 2026–2027

Prif feysydd ffocws:

- Gwella ansawdd cofnodion y ddalfa
- Ymgorffori llais y plentyn
- Monitro'r gwaith o ddiogelu menywod a merched yn barhaus
- Cryfhau ymatebion partneriaeth ar gyfer plant

